

Y dyn a roddodd Gymru ar dân

ARWR mawr Ian Paisley, y gwleidydd dadlennol o Ogledd Iwerddon, oedd un o bregethwyr nodedig Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar un adeg yn nechrau'r saithdegau ymwelodd â'i fan geni yn Nolwyddelan. Roedd gan y gweinidog a chyn arweinydd y DUP, a fu farw yn 88 oed yn 2014, feddwl mawr o John Jones, Talysarn. Un o Ddolwyddelan ger Betws y Coed yn wreiddiol oedd y gŵr a fu'n un o gonglfeini'r Methodistiaid Calfinaidd. Bu'n chwarelwyr cyn troi i fyfod crefydd a daeth yn berchennog chwarel Dorothea, Dyffryn Nantlle yn y cyfnod hwnnw.

Dywadir ei fod ymhlihyd y grymusaf o bregethwyr a welodd Cymru erioed. Cychwynnodd ddull newydd o bregethu gyda phwyslais arbennig ar yr ymarferol yn hytrach na'r athrawi-aethol, a nodwedd arbennig ei bregethu oedd nerth — nerth meddwl, nerth ymadrodd, nerth argyhoediad ac ymgysgriad. Er na chaffod ddiwrnod o ysgol casglodd lawer iawn o wybodaeth; yr oedd yn gerddor rhagorol ac yr oedd ei lais gwych a'i gorff lluniaidd yn help mawr iddo yn ei weinidogaeth. Mae'n debyg mai'r hanes hwn oedd yn apelio at y diweddar Ian Paisley.

Ganwyd ei arwr yn Nhancastell



**John Jones,
Talysarn**
[Llyfrgell Genedlaethol Cymru]

sydd bron gyferbyn â Castell Dolwyddelan – castell Llywelyn Fawr - ac mae cofeb marmor er cof am-dano wedi ei lleoli ar y ffordd breifat sy'n arwain at y tŷ, ac yn ogystal mae cofeb lechen fawr ar wal ochr tŷ 1 Tanycastell. Dau dŷ gwyliau yw Tanycastell erbyn hyn.

Ar y llechen mae'r englyn hwn:

*Clogwyn cole ganian - wnaeth ryfedd
Athrofa i Ioan
Ai yn null gwron allan
Mawr wr Duw roes Gymru ar dân*

Pan fu farw yn 1857 fe'i claddwyd ym mynwent eglwys Llanllifni. Dywedir fod miloedd yn ei anghadd yn cynnwys 8 o feddygon, 65 o weinidogion a phregethwyr, 70 o flaenoriaid, 200 o gantorion a chantoresau ac oddeutu 4,000 a rhagor o alarwyr yno.

Ymfudodd nifer o'i frodyr a'i chwiorydd i Wisconsin, gan ymsefydlu yn bennaf o gwmpas pentref Cambria, ac ar un adeg roedd wedi ystyried ymuno â hwy yn America. Ond yng Nghymru yr arhosodd John a Fanny Jones, a chael tri ar ddeg o blant. ■



Y gofeb yn Nhancastell

Ian Paisley's Welsh hero

The controversial minister and politician from Northern Ireland was a great admirer of one of Wales' past prominent Methodist preachers, perhaps the greatest ever seen. At one time Ian Paisley visited John Jones' birthplace in Dolwyddelan, as the history of his fiery and plain speaking style appealed to him. John Jones became known as John Jones, Talysarn when he moved to the Nantlle Valley when, with others, he bought the Dorothea Quarry.

Ian Paisley was eager to see the house where he was born, Tanycastell opposite Dolwyddelan castle, where a monument has been erected to commemorate him. John

Jones died on 16 August 1857 and was buried at the parish graveyard in Llanllifni. It is reported that 4,000 attended his funeral and in the procession were 8 doctors, 65 ministers, 70 deacons, and 200 choristers and a further 2,000 mourners joined en route.

John Jones was a member of a large family which has gone to some trouble to record its genealogy. In the mid-nineteenth century several of his brothers and sisters and their offspring emigrated to the area around Cumbria, Wisconsin, USA. As a result there is interest to this day from many in Wales and the USA in tracing their genealogy through this family. ■